# CYNLLUN AR GYFER CYFARFOD BWRDD Y CYMDOGAETHAU

## 21 TACHWEDD 2025 @ 1.30PM

### COFNODION

**Yn bresennol:**

| **Presennol** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| **Aelodau'r Bwrdd** | |
| Paul Gray (PG) – Cadeirydd | Y Cynghorydd Brent Carter (BC) |
| AS Gerald Jones (GJ) | Elizabeth Bedford (EB) |
| Lis Mclean (LM) | Geraint Williams (GW) |
| Sharon Richards (SR) | Daniel Jones (DJ) |
| Y Cynghorydd David Jones (DJ) | Robert Davies (RD) |
| Karen Courts (KC) | |
| MS Dawn Bowden (DB) | |
| Simon Evans (SE) | |
| | |
| **Cynghorwyr Bwrdd** | |
| Ellis Cooper (ES) | Steven Jones (SJ) |
| Zoe Thomas (ZT) | Ceri Dinham (CD) |
| Judieth Jones (JJ) | Craig Flynn (CF) |
| Laura Willcox (LW) | |
| Paul Lewis (PL) | |
| Victoria Parry (VP) | |
| **Cyflwynydd Gwadd** | |
| Keith Thomas (KT) / James Brown (JB) a Florence Bell (FB) – y trefolwyr | |

## Eitemau a drafodwyd

**Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau**

Agorodd PG y cyfarfod, gan groesawu a diolch i'r holl aelodau am eu presenoldeb

Rhoddod LW ddiweddariad ynghylch ymddiheuriadau ac absenoldebau

**Gweithredoedd y cyfarfod blaenorol:**

Bydd y camau gweithredu gan fwrdd mis Hydref yn cael eu trafod ym Mwrdd mis Rhagfyr

**Pwrpas y Cyfarfod Bwrdd:**

Derbyn cymeradwyaeth y Bwrdd i'r Cynllun Adfywio Deng Mlynedd a'r Cynllun Buddsoddi Pedair Blynedd

**Trafodaethau Agoriadol**

Cymerodd y Bwrdd ran mewn trafodaeth ynglŷn â datblygiad parhaus strwythur llywodraethu'r rhaglen.

- Awgrymodd PL y dylid cynnwys Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn nhrafodaethau'r dyfodol, gan gydnabod y cysylltiad hanfodol rhwng diogelwch cymunedol a chanlyniadau adfywio.
- Awgrymodd ZT y dylid ymgysylltu â busnesau preifat, fel y ceisiwyd ei wneud yn flaenorol trwy'r Bartneriaeth Canol Trefi
- Cytunodd PG a'r Bwrdd y byddai adolygiad o'i strwythur a'i aelodaeth bresennol yn cael ei gynnal. Bydd yr adolygiad hwn yn anelu at sicrhau bod y Bwrdd yn adlewyrchu blaenoriaethau cymunedol cyfredol ac yn cynnal goruchwyliaeth gynrychioliadol ddigonol yn unol â cham cyflawni'r Rhaglen.

**Camau gweithredu: Pawb: Adolygiad o Strwythur presennol y Bwrdd**

- Cadarnhaodd LW fod fersiwn ddrafft y Cynllun Adfywio Deng Mlynedd wedi'i gyflwyno i gyswllt dynodedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Derbyniwyd cydnabyddiaeth ffurfiol, ond nid oes unrhyw sylwadau wedi'u darparu hyd yn hyn.
- Atgoffodd LW y bwrdd o'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r Cynllun Adfywio a Buddsoddi 4 Blynedd yn derfynol, sef dydd Gwener, 28 Tachwedd am 12:00pm.

**Y Cynllun Adfywio a Buddsoddi Pedair Blynedd**

Cyflwynodd KT'r Cynllun Buddsoddi Pedair Blynedd er mwyn ei drafod am y tro olaf. Roedd y pwyntiau allweddol yn cynnwys y canlynol:

- Ailadroddwyd bod y cynigion wedi'u seilio ar ddadansoddiad data cadarn ac ymgynghoriad cymunedol cynhwysfawr, wedi'i gynllunio'n benodol i fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol a nodwyd yn y gymdogaeth darged, gan alinio ag amcan craidd y Rhaglen.
- Pwysleisiwyd bod y cynllun terfynol o reidrwydd yn un hyblyg er mwyn sicrhau bod y camau cyflawni yn parhau i ymateb i'r anghenion cymunedol sy'n esblygu ac sydd wedi'u gwirio.
- Cyhoeddwyd nodyn atgoffa ynglŷn â'r cyfyngiad bod ymyriadau wedi'u cymeradwyo ymlaen llaw ar hyn o bryd yn ffafrio prosiectau Refeniw. Atgoffwyd y Bwrdd o'r rhaniad gorfodol cyfalaf/refeniw (75/25), sy'n golygu bod angen dewis prosiectau'n synhwyrol yn y dyfodol er mwyn gwneud y mwyaf o'r effaith ariannol.
- Eglurwyd y dylai pecynnau cyllido prosiect geisio ymgorffori elfen o arian cyfatebol er mwyn gwella'r gwerth cyffredinol.

Pwysleisiodd GJ yr angen am lwyr dryloywder ynghylch gwariant ac ymgysylltu cymunedol cadarn, parhaus ar ôl cyflwyno.

Cadarnhaodd ZT fod y cynllun yn cyd-fynd ag adborth a gafwyd wedi'r ymgynghoriad a bod y cynllun wedi ymrwymo i ymgysylltu'n barhaus wedi'r cyflwyno, a bod hyn oll wedi ei adlewyrchu gan yr egwyddor gyfathrebu: "Dwedoch chi, gwnaethom ni …"

Cyflwynwyd y gwariant refeniw sy'n gysylltiedig â phob thema Rhaglen gan KT. Pwyntiau allweddol fel a ganlyn:

- Cododd DB bryderon ynghylch rhyngweithio â datblygiadau polisi sy'n dod i'r amlwg yng Nghymru (e.e. y Bil Digartrefedd) a sut y bydd prosiectau yn cynnal cydymffurfiaeth a pherthnasedd.

- Cwestiynodd LM a yw'r dyraniad cyllid yn bodloni anghenion cymunedol difrifol, gan fynegi pryder bod diogelwch yn ymddangos braidd yn drwm. Gofynnodd LM am gyfiawnhad dros y dyraniad ar gyfer wardeiniaid cymunedol

- Ailadroddodd KT fod yr ymgynghoriad cychwynnol yn tynnu sylw at bryderon cymunedol sylweddol ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol, nad yw'n ddyletswydd statudol i'r Cyngor ei ddarparu ond sy'n flaenoriaeth glir i drigolion. Mae'r flaenoriaeth felly yn gwarantu'r gwerth arfaethedig yn erbyn yr elfen hon

- Eglurodd PG fod penderfyniadau terfynol y prosiect yn gorwedd gyda'r Bwrdd ond eu bod yn ddarostyngedig i'rg wiriadau diwydrwydd dyladwy a chraffu ariannol y Corff Atebol.

- Eglurodd ZT fod argaeledd y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn ein galluogi ni i gyflwyno wardeniaid yng nghanol y dref yn llwyddiannus. Mae adborth cymunedol yn dangos bod trigolion cefnogi cadw'r gwasanaeth anstadudol hwn yn gryf, o bosibl gyda llai o wardeiniaid ac yn canolbwyntio'n benodol ar ganol y dref.

- Holodd LM a fyddai'r cyllid yn diwallu anghenion y Trydydd sector. Awgrymodd SR gynnwys Fforwm Arweinwyr y Trydydd Sector.

- Tynnodd EC sylw at gydweithrediad rhwng y trydydd sector a'r Awdurdod Lleol, gan nodi cyfarfod cadarnhaol diweddar gyda Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful.

- Pwysleisiodd SR yr angen am ohebiaeth glir a chyson wedi eu rheoli’n dda ynghylch cefnogaeth i'r trydydd sector a'r bregusrwydd, yn enwedig o ran faint o gllid cyfatebol sydd ar gael. Rhaid i negeseuon gan bob Bwrdd a sefydliadau cysylltiedig fod yn gyson.

- Cynigiodd SR weithio'n uniongyrchol gyda'r Awdurdod Lleol i wneud y gorau o'r defnydd o'r Gronfa Twf Lleol ac i ddileu'r camsyniad mai'r Awdurdod Lleol yn unig sy'n gyfrifol am gyflawni popeth.

- Manylodd KT ar flaenoriaethau prosiect cyfalaf adfywio, gan fynd i'r afael â heriau tai difrifol (sy'n eithrio adeiladau newydd.

- Awgrymodd DB ehangu cwmpas ymyriadau Iechyd a Lles o dan y thema Diwylliant a Threftadaeth bresennol.

- Nododd KT fod diwylliant wedi'i gynnwys yn y thema adfywio, ond mae ei ystod yn cael ei gyfyngu gan ofynion y cyfnod cychwynnol.

- Ail-bwysleisiodd DB y gofyniad cyfreithiol i ystyried polisïau cenhedloedd datganoledig yn y ffordd y mae’r Rhaglen yn cael ei dylunio a’i chyflawni.

- Cadarnhaodd KT y cyfeirir at ofynion fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y cynlluniau, a bod manylion penodol yn cael eu dirprwyo i'r Bwrdd i'w goruchwylio.

- Cadarnhaodd PG fod Cynrychiolydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym Merthyr i fod i fynychu cyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr, gan roi cyfle i godi unrhyw faterion sydd heb eu datrys yn ymwneud â blaenoriaethau cenhedloedd datganoledig ac ystod y rhaglen.

- Eglurodd KT nad yw'r thema Cynhyrchiant a Sgiliau, o ganlyniad i natur y pwnc, yn gwethio’n dda iawn gyda phrosiectau Cyfalaf o fewn y cyfnod cyllido hwn.

- Pwysleisiodd GJ a PG fod yn rhaid i bob prosiect gyd-fynd ag anghenion lleol wedi'u gwirio, cynnigiodd GJ bod yn rhaid i'r Bwrdd gadw'r hyblygrwydd i ddewis prosiectau amgen os yw'r dewisiadau cychwynnol yn profi'n anhyfyw.

- Cynigiodd ZT feithrin cydweithrediad â'r naw Awdurdod Lleol arall a'r pedwar sydd wedi llwyddo i basio rhwystr cyntaf y Rhaglen.

**Eitemau penderfyniad**

| Disgrifiad | Canlyniad |
|---|---|
| Cymeradwyo'r Cynllun Drafft Buddsoddi Pedair Blynedd | Cytunwyd yn unfrydol gan aelodau'r bwrdd |
| Cymeradwyo'r Cynllun Drafft Adfywio Deng Mlynedd | Cytunwyd yn unfrydol gan aelodau'r bwrdd |

---

**Materion Eraill a Drafodwyd**

Cyhoeddodd LW fod rôl y Rheolwr Rhaglen bellach yn fyw; dyddiad cau 18 Rhagfyr.

Soniodd LW fod y Swydd Ddisgrifiad ar gyfer rôl y swyddog prosiect i'w drafftio

PG: Awgrymwyd ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac adolygu aelodaeth y bwrdd yn y Flwyddyn Newydd.

**Gweithredu: LW i roi ar yr agenda ar gyfer Ionawr 2026**

LW: eglurodd y byddai map yn dangos y camau nesaf i'r Bwrdd yn cael ei ystyried yn y Flwyddyn newydd

SR: Awgrymwyd cynnwys Fforwm Arweinwyr y Trydydd Sector.

---

**Gweithredoedd**

**Pawb:** Adolygiad o Strwythur presennol y Bwrdd

**LW:** gosod Trafodaeth Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar agenda Ionawr 2026

**LW:** Drafftio map o’r camau nesaf ar gyfer Bwrdd Ionawr 2026

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn bersonol ar Ragfyr 19eg yng Nghanolfan Fusnes Orbit